

Ymgeisio am dai cymdeithasol yn Sir y Fflint

Datrysiadau Tai Sir y Fflint

Mae Datrysiadau Tai Sir y Fflint wedi cael ei sefydlu i'w gwneud yn haws i wneud cais am Dai Cymdeithasol yn Sir y Fflint. Mae hon yn bartneriaeth rhwng Cyngor bwrdeistref Sir y Fflint a'r Cymdeithasau Tai Lleol canlynol: Clwyd Alyn, Wales & West and Grŵp Cynefin.

Cofrestr Newydd Tai Sir y Fflint

O fis Ebrill 2015 mae yna un Gofrestr Tai (un rhestr dai) a rennir gan yr Awdurdod Lleol a'ch holl Gymdeithasau Tai Lleol.

Mae hyn yn golygu bod gan ymgeiswyr bellach un pwynt cyswllt ac un proses gwneud cais i'w gwblhau i gael eu hystyried ar gyfer yr holl dai cymdeithasol sydd ar gael yn Sir y Fflint.

A oes gen i angen am dŷ cydnabyddedig?

Bydd Datrysiadau Tai Sir y Fflint yn asesu eich angen am dŷ drwy gasglu gwybodaeth a blaenoriaethu eich angen am dŷ yn un o'r pedwar band: (gweler y cynllun bandio gyferbyn*).

Os nad ydych angen tŷ fel y cydnabyddir yn y cynllun bandio, bydd Datrysiadau Tai Sir y Fflint yn rhoi cyngor i chi a thrafod dewisiadau tai eraill gyda chi. Mae'r rhain yn cynnwys dewisiadau llety rhent canolradd, llety rhent preifat a pherchenogaeth tŷ yn y sir.

* Mae'r cynllun bandio hwn ar gyfer arweiniad yn unig - bydd pob ymgeisydd yn cael ei asesu'n fanwl gan ein tîm tai arbenigol yn ystod y broses ymgeisio.

Sut allai wneud cais?

I gael eich cynnwys ar Gofrestr Tai Sir y Fflint neu i gael rhagor o wybodaeth am ddewisiadau tai yn Sir y Fflint cysylltwch trwy:



Ymweld: www.siryfflint.gov.uk/CofrestrTai



Ffôn: 01352 703777



Ysgrifennwch / Ymwelwch:

Datrysiadau Tai, Cyngor Sir y Fflint,



Swyddfeydd y Sir, Lon y Capel, Flint, CH6 5BD

Ffortmatau gwahanol or ddogfen hwn ar gael ar gais.

Band 1:

Angen brys am dŷ gyda cysylltiad lleol

- Pobl ag anghenion meddygol brys
- Pobl sydd angen symud ar frys i eiddo sydd wedi cael ei addasu
- Rhywun sy'n gadael y lluoedd arfog ac angen llety
- Achosion lle mae person ifanc yn gadael gofal neu mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal
- Tenant presennol yn fodlon cymryd eiddo llai.
- Tenant presennol sydd ag eiddo wedi ei addasu nad ydynt bellach ei angen
- Digartref ac yn dianc rhag trais yn y cartref

Band 2:

Mewn angen am dŷ gyda cysylltiad lleol

- Person digartref anfwriadol
- Angen meddygol difrifol sy'n cael ei effeithio gan eu cartref
- Pobl yn byw mewn eiddo difrifol wael neu orlawn
- Pobl yn byw mewn eiddo sydd â diffyg cyfleusterau hanfodol
- Rhywun sydd angen eiddo wedi ei addasu
- Pobl sy'n dioddef caledi oherwydd eu Sefyllfa Tai

Band 3:

Mewn angen am dŷ heb gysylltiad lleol

- Pobl ag anghenion meddygol brys
- Pobl sydd angen symud ar frys i eiddo sydd wedi cael ei addasu
- Os yw eich eiddo wedi cael ei ddinistrio gan drychineb
- Rhywun sy'n gadael y lluoedd arfog ac angen llety
- Achosion lle mae person ifanc yn gadael gofal neu mewn perygl o gael eu rhoi mewn gofal

Band 4:

Mewn angen am dŷ heb gysylltiad lleol

- Person digartref anfwriadol
- Angen meddygol difrifol sy'n cael ei effeithio gan eu cartref
- Pobl yn byw mewn eiddo difrifol wael neu orlawn
- Pobl yn byw mewn eiddo sydd â diffyg cyfleusterau hanfodol
- Rhywun sydd angen eiddo wedi ei addasu
- Pobl sy'n dioddef caledi oherwydd eu cartref
- Person digartref bwriadol*

* gyda neu heb gysylltiad lleol